



Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Gyflawn Rhagfyr 2013

Mae Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar yr ymgeisydd angen unrhyw oruchwyliaeth.

Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 26

Llwyddo: 7

Gosodwyd darnau oedd yn fwriadol wrthgyferbyniol ar gyfer yr arholiad Cyflawn, ac roedd yr ail, o bosib, dipyn yn fwy cyfarwydd ei arddull i gyfieithwyr profiadol, gan ei fod yn debycach i'r math o waith y mae'n rhaid iddynt ymdrin ag ef o ddydd i ddydd. Nid yw'n syndod, felly, bod mwyafrif yr ymgeiswyr wedi cael mwy o drafferth gyda'r darn cyntaf na'r ail ddarn, ond yn naturiol, ar y lefel hon, mae disgwyl i gyfieithydd fedru ymdopi â chyfleu pob math o destunau Saesneg mewn Cymraeg cywir, naturiol.

Llwyddodd tua chwarter o'r ymgeiswyr, ac maent i'w llongyfarch am gyrraedd y safon ac am ddarparu, yng ngeiriau un o'r marcwyr, 'enghreifftiau lawer o gyfieithu deallus a gloyw'. Wedi dweud hynny, yn anffodus, gwelwyd bod yr ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael trafferth gyda phob un o'r pedair elfen sy'n cael eu defnyddio fel meini prawf, a rhaid tybio felly bod angen cryn dipyn mwy o brofiad a hyfforddiant ar nifer ohonynt cyn sefyll arholiad ar y lefel hon. Gellid tybio bod yma nifer sy'n gallu ysgrifennu Cymraeg yn ddigon graenus, ond sydd heb ddysgu crefft cyfieithu, h.y. mae angen iddynt fedru cyfleu union neges y gwreiddiol, yn hytrach na mynd ati i gyfieithu heb roi sylw digon manwl i'r testun sydd o'u blaen.

Dyma rai enghreifftiau o wallau a gododd yn y ddau ddarn. Fel y soniwyd eisoes, cafwyd nifer o enghreifftiau o fethu â chyfleu union ystyr y gwreiddiol, fel y gwelir isod:

...undue interference...

...ormod o ymyrraeth...

...extending the use... will be formally reviewed in a few years' time...

...bydd adolygiad ffurfiol ... y defnydd o'r Wyddeleg ymhellach ymhen ychydig o flynyddoedd...

*...but also be seen to be independent...
...rhaid iddynt gael eu gweld yn annibynnol...*

Roedd sawl elfen yn y ddau ddarn wedi peri i'r ymgeiswyr faglu'n gystrawennol, gan greu ffurfiau anaddas a thrwsogl fel y canlynol:

***Mae'n syndod nad yw'r cynnig...ond wedi derbyn ychydig o sylw...
...mae'n bosib bod hyn oherwydd y ffaith y cafwyd ychydig iawn o wrthwynebiad...
...ymdrech ac arian ddylid eu buddsoddi...
...gweld i fod yn annibynnol...
...hyd oni y gellir...
...mae'r symudiad... wedi cael fawr ddim sylw
...mai ychydig neu ddim gwrthwynebiad a ddangoswyd...
...y cymeradwywyd gan y Senedd
...datblygiad parhaus ar wasanaethau darlledu
...nes mae'n cael ei brofi***

Cafwyd hefyd rai problemau geirfa, yn enwedig wrth drin enwau'r ieithoedd yn y darn cyntaf, e.e.

***Basg, iaith Catalan a Galiseg;
y Fasgeg, y Gatalaneg a'r iaith Galiseg;
Basgeg, Catalaneg ac iaith Galicia
y Fasg, y Gatalaneg a Galiseg***

Efallai mai bod o dan amodau arholiad oedd yn rhoi'r ymgeiswyr o dan straen, ac yn eu hatal rhag meddwl yn glir, ond buasai **Basgeg, Catalaneg a Galiseg** yn syml ac yn dderbyniol, ac yn dangos cysondeb patrwm.

Cafwyd rhai gwallau geirfa eraill na ddisgwylid eu gweld ar y lefel hon: 'diniwed' am 'innocent' (yng nghyd-destun y llysoedd) a 'deddfwriaeth eilradd' am 'secondary legislation'. Byddai disgwyl i gyfieithydd proffesiynol fedru ymdopi â chyfeiriadau fel y rhain.

Er bod yr iaith yn lân ar y cyfan, cafwyd rhai llithriadau treiglo a diffyg cytundeb cenedl/rhif, e.e.:

***...y wybodaeth y mae'r Bwrdd yn ei ystyried
...annibyniaeth hwn
...strategaeth wedi ei gynllunio
...gwasanaethau ddarlledu
...rhan lled-gyfriniol***

Roedd yr olaf o'r rhain yn digwydd yng ngwaith nifer helaeth o'r ymgeiswyr, ac mae'n dangos, unwaith yn rhagor, pa mor hanfodol bwysig yw darllen y gwaith yn fanwl cyn ei gyflwyno.

Er y gellir maddau ambell lithriad fel hyn o dan amodau arholiad, dylai pob ymgeisydd am aelodaeth gyflawn olygu ei (g)waith yn ofalus i sicrhau nad yw gwallau o'r math hwn yn llithro drwy'r rhwyd.

Wrth gloi'r adran hon, felly, carwn annog yr holl ymgeiswyr aflwyddiannus i fynd ati o ddifri i fireinio'u sgiliau, ac i fanteisio ar bob cyfle i gryfhau eu gafael ar gystrawennau'r Gymraeg. O wneud hynny, gallai nifer ohonynt lwyddo i gyrraedd y safon ofynnol yn y dyfodol.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 13

Llwyddo: 11

Braf iawn oedd gweld mwyafrif llethol yr ymgeiswyr yn llwyddo i gyrraedd y safon angenrheidiol, a hynny er gwaethaf y ffaith bod y darn cyntaf a osodwyd o bosib yn ymdrin â maes nad yw'n gyfarwydd i'r mwyafrif. Fel y nodwyd yn achos y cyfieithu i'r Gymraeg, mae disgwyl i gyfieithwyr ar y lefel hon fedru ymdopi â darnau sy'n trafod meysydd anghyfarwydd, a gellir maddau ambell lithriad o ran y derminoleg, cyhyd â bod gafael yr ymgeisydd ar batrymau'r iaith yn ddigon cadarn. Wedi dweud hynny, er bod y cyfieithiadau llwyddiannus yn ddigon boddhaol, braf fuasai gweld mwy o gyffyrddiadau ysbrydoledig a chyfieithiadau a oedd yn wir yn cyrraedd yr uchelfannau.

Dyma rai enghreifftiau o gyfieithiadau llwyddiannus a gafwyd yn y ddau ddarn:

...clefydau henaint.

...age-related diseases.

Golwg Newydd ar Fioleg Celloedd

A Fresh Look at Cell Biology

Petai rhywun wedi datblygu'r syniad ar y pryd...

Had somebody developed the idea at the time...

...gan gydnabod gwendidau nifer ohonynt.

...whilst acknowledging that many of them had shortcomings.

Rwy'n dal i gredu bod y cysyniad o ad-drefnu llywodraeth leol yn gorwedd ar seiliau bregus.

I still believe that the concept of restructuring local government rests on precarious foundations.

Ond mewn llywodraeth leol mae yna genfigennau cynhenid...

But in local government there are ingrained jealousies...

...un uned sirol...

...a single county unit...

...ac yn rhoi ynni iddynt...

...and provide them with energy...

Darganfyddiad pwysig diweddar fu dysgu mwy am fioleg celloedd, a sylweddoli cynifer o glefydau sy'n deillio o gamweithrediad mitocondriaidd a rhaniad celloedd.

Learning more about the biology of cells, and realising how many diseases stem from mitochondrial and cell division malfunction, has been an important recent discovery.

Er bod mwyafrif y cyfieithiadau'n llwyddo i gyrraedd y safon, cafwyd nifer o wallau amrywiol yn y gwaith hefyd, e.e. dewisiadau geirfa amhriodol neu anfanwl:

...nifer fawr o glefydau...

1) ...a vast number...

2) ...a significant number...

3) ...a larger number...

...gellir ceisio osgoi clefydau...

...attempts can be made to circumvent diseases...

...un o'r cymunedau hynaf ym Mhrydain gyfan.

...one of Britain's eldest communities.

...ymwneud â chludiant mitocondriaidd yn yr ymennydd...

...linked to mitochondrial passage in the brain...

Cafwyd enghreifftiau hefyd o fynegiant trwsgl:

...ar draws ffiniau'r siroedd...

...across the counties' boundaries...

...cadw'r tair sir ar ddeg hanesyddol a oedd i Gymru...

...kept the thirteen historic counties that Wales consisted of...

a rhai gwallau gramadegol, megis y berthynas rhwng goddrych a berf:

Problems with this process... is linked

...their quality deteriorate.

Ar y cyfan, felly, roedd safon y cyfieithu yn eitha boddhaol, ond mae angen i ambell ymgeisydd ochel rhag cynnwys gormod o droednodiadau. Er bod ambell nodyn eglurhaol i'r marcwyr i'w groesawu, cafwyd rhai sgrïptiau oedd yn frith o awgrymiadau a sylwadau oedd, i bob pwrpas, yn mynegi ansicrwydd. Er y gall ychwanegiad ymyl-y-ddalen ddangos bod ymgeisydd ar y trywydd iawn, gall hefyd, os yw'n cynnwys gwallau sillafu, greu argraff negyddol. Gan nad oes modd i ymgeiswyr wirio termau ar y we ac ati yn yr arholiad, mae'n ddigon naturiol y bydd ambell derm yn achosi trafferth, ond dylai cyfieithydd ar y lefel hon fod yn ddigon hyderus a phrofiadol i fedru dilyn ei (g)reddf y rhan fwyaf o'r amser.